**CYNGOR CYMUNED FFLUR YSTRAD**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL NOS IAU**
**20/04/2017 AM 7.00PM**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN,**
**PONTRHYDFENDIGAID**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Clare Hughes (Cadeirydd); Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd); Y Cyngh. John Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Gareth Owen, Y Cyngh. Alun Price-Jones a'r Cyngh. Doug Rowbotham. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:** Ymddiheurodd Y Cyngh. Cymuned a Sirol Ifan Lloyd-Davies, y Cyngh. Non Jones a'r Cyngh. Wil Lewis am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**

Dywedodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans nad oedd materion o bwys i'w hadrodd yn dilyn cyfnod tawel.

**4.1 Byddai'r heddlu'n** cadw llygad ar faes parcio'r ysgol.

**4.2 Adroddwyd bod pibau wedi eu** dwyn o eiddo un Cynghorydd Cymunedol a berfa o eiddo Cynghorydd Cymuned arall.

**4.3 Y mae rhai cerbydau wedi eu parcio heb ganiatad** ar dir Neuadd Pantyfedwen. Hefyd ger Blwch Ffonio BT. Trafodwyd unwaith yn rhagor, yn ystod y cyfarfod diwethaf, y broblem barcio ar yr heol yng nghyffiniau Garej Glanteifi; gan nad oedd parcio wedi ei wahardd yn yr ardal soniodd yr heddlu yn y gorffennol bod cerbydau wedi parcio yma'n profi'n fesur arafu traffig. (holwyd os oedd oedd treth ac yswiriant ar gael ar yr holl gerbydau).

Gresynwyd y ffaith bod cerbydau wedi eu parcio yma'n ystod y drafodaeth; yr oedd aelodau Cyngor Cymuned o'r farn bod y sefyllfa'n berygl difrifol i ddefnyddwyr y ffordd.

**PENDERFYNWYD** adrodd y mater at sylw'r Uned Trafnidiaeth Ffyrdd - Heddlu Dyfed Powys a'r Adran sy'n delio â Materion Parcio Cyngor Sir Ceredigion. **PENDERFYNWYD** gofyn beth oedd y gofynion cyfreithiol o barcio ceir ar yr heol a materion yn ymwneud â Thrwydded Gyrru; Treth ac Yswiriant.

Derbyniwyd ymateb gan Gerwyn Slinger, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu 8080 Llambed yn dweud, gan nad oedd unrhyw gyfyngiadau parcio, roedd yr Heddlu yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallent wneud. Pe bai cyfyngiadau mewn lle, gallent gynorthwyo i gael gwared ar y cerbydau. Nid yw'r heddlu yn medru datgelu manylion o'r hyn y mae'r Cyngor Cymuned yn gofyn, i unrhyw aelod o'r cyhoedd o ganlyniad i'r Ddeddf Diogelu Data. Ei gyngor oedd cysylltu â Ch.S Ceredigion a allai o bosibl ail-edrych ar y sefyllfa a chyflwyno llinellau ar y ffordd i gyfyngu parcio.

**4.4** **Car wedi ei adael mewn cilfan yn Ffair Rhos ers cyfnod o 6 mis**: Diolchodd y Cyngh. John Jones i'r Heddlu am ymwneud â threfniadau i symud y cerbyd.

**5. DATGANIAD DIDDORDEB**

**5.1** Y Gyngh. Clare Hughes a'r Gyngh. Mair Jones: Cofnod 9.1.

**5.2** Y Gyngh. Clare Hughes: Cofnod 8.6.

**6. Cofnodion y cyfarfod o'r 16eg o Fawrth 2017. PENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir ar wahân i'r ffaith bod munud o dawelwch wedi ei barchu'n ystod y cyfarfod er cof am Mr John Jones, Dolawel, Pontrhydfendigiad, a fu'n drist, farw'n ddiweddar. Estynnwyd cydymdeimlad â'i wraig, y Gynghorwraig Mair Jones a'i deulu yn ystod yr amser anodd hwn.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Etholiad Lleol 2017 : Hysbysiadau Cyhoeddus i'w harddangos yn y cyffiniau:**

**1. Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad: Ward Caron Uwch Clawdd**: Hysbysiad gan Miss Bronwen Morgan, Swyddog Canlyniadau CSC, fod y canlynol wedi eu hethol yn Gynghorwyr Cymuned heb gystadleuaeth:

Clare Hughes
Angharad Jones
Mair Jones
Gareth Owen.

**2. Rhybudd o Bleidlais: Ward Gwnnws Uchaf Ystrad Fflur**
Mae'r bobl ganlynol wedi cael eu henwebu neu ag enwebiad i sefyll etholiad:

Alun Price Jones
John Jones
Laura Jones
Non Jones
Wil Lewis
Douglas Rowbotham

Mae'r Rhybudd o Bleidlais wedi codi gan fod mwy na 5 o bobl wedi gwneud cais am y Ward Gwnnws Uchaf. Mae 6 ymgeisydd.
Mae 4 unigolyn wedi gwneud cais am y Ward Caron Uwch Clawdd; 5 o bobl sy'n gymwys.
Teimlai rhai Cynghorwyr y gellid wedi trefnu bod 5 ymgeisydd ar gyfer pob ward, ac yna ni fyddai Etholiad a'r angen i bleidleisio wedi codi; serch hynny nid oedd yn hysbys i'r Cyngor Cymuned petai datganiadau o ddiddordeb pellach o fewn y gymuned.

**3. Rhybudd o Bleidlais-Ceredigion Cyngor Sir - Lledrod**
Mae'r bobl ganlynol wedi cael eu henwebu neu ag enwebiad i sefyll etholiad .Ward Lledrod
Aeron Benjamin; Ifan Lloyd-Davies ac Angharad Shaw.

**7.2** **Paneli o Wydr wedi eu torri o fewn y Lloches Bws:** 2 ddarn wedi torri. **PENDERFYNWYD** gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

**7.3 Llythyr oddi wrth Mr Martin Weetch yn ystod cyfarfod blaenorol ynghylch** cyflwr dirywiol y bont-droed fetel sy'n croesi'r Afon Teifi ac wedi ei lleoli wrth gefn Dolau Bach ac a gyfeiriwyd ati fel y "Bont Werdd". Mae ychydig o flynyddoedd wedi mynd heibio ers iddo ef a gwirfoddolwyr beintio'r Bont Werdd (y Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu'r paent). Ers hynny, mae ei chyflwr wedi dirywio'n aruthrol a thyllau'n amlwg ar y gwaith metel wrth gefn a'r rhannau sydd wedi eu peintio; mae cyflwr y bont bellach wedi mynd tu hwnt i unrhyw ymgais i'w hailbeintio. Gofynnwyd tybed a allai'r Cyngor Cymuned gyfeirio ei ymholiad at yr unigolion sy'n gyfrifol am y bont gyda'r bwriad o'i hatgyweirio. **PENDERFYNWYD** yn ystod cyfarfod cynt i gyfeirio'r mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd bod y Cyngor Sir yn cyflogi "Swyddog Pontydd" a fydd yn clustnodi sylw pellach i'r mater.
Derbyniwyd ymateb gan Mr Eifion Jones, Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Sir Ceredigion ar y 25/10/2016 yn nodi bod yr adran priffyrdd wedi arolygu'r bont; mae rhestr o atgyweiriadau eu hangen. Byddant yn awr yn cael eu cynnwys ar y rhestr o flaenoriaethau cyn penderfynu yr union pryd y gall y gwaith fynd yn ei flaen. Yn y cyfamser, gofynnir i drigolion i gydymffurfio â'r arwydd ar y bont ac i ddefnyddio'r bont un ar y tro. Bydd yn cysylltu â'r Cyngor Cymuned yn y dyfodol pan fydd gwybodaeth bellach ar gael. *Dim Datblygiadau i'w Hadrodd yn ystod y Cyfarfod hwn. **PENDERFYNWYD** atgofio Cyngor Sir Ceredigion o'r Cais.*

**7.4 Prosiect Ger-y-Gors Cyf**
**PENDERFYNWYD** anfon llythyr at Mr Bill Messer yn diolch iddo am ei ymdrechion mewn perthynas â Ger-y-Gors Cyf.

**7.5 Cais am: Bont i Gerddwyr ochr yn ochr â phont hanesyddol Pontrhydfendigaid**
Mae'r Gyngh. Clare Hughes wedi trefnu Deiseb…. "Mae'r holl draffig sy'n defnyddio ffordd y B4343 a'r ffaith nad oes modd gweld traffig sy'n dod tuag atoch yn hawdd yn gwaethygu'r broblem, gan wneud y bont yn beryglus i gerddwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddio sgwters a phramiau. Er mwyn gwella ansawdd bywyd trigolion, ymwelwyr, yr hen a'r ifanc, yr abl a'r rhai llai abl, rydym yn galw ar y cyngor sir i gefnogi'r cynllun arfaethedig ac ymchwilio i dir addas ar gyfer y datblygiad".

**7.6 Arolwg Parc Adroddiad Rospa 2107:** mae trefniadau ar y gweill i ymwneud ag Arolwg parc yn ystod mis Mehefin 2017.

**7.7 Torri gwair o fewn y Pentref dros fisoedd yr haf:**
Gwahoddwyd cynigion i dorri'r glaswellt o amgylch y Pentref dros fisoedd yr haf.
**TORIADAU i'W GWNEUD YN ÔL YR ANGEN**
1. Glan-yr-Afon -
2. Mynediad i'r Pentref i gynnwys y Glas a'r ardal ger yr Eglwys
3. O gwmpas Neuadd Pantyfedwen
4. Ardal yr Ysgol Feithrin

Dyfynnu yn ôl y toriad.

Dyddiad cau Dydd Iau 20 Ebrill, 2017 am 12 Canol Dydd. Derbyniwyd un datganiad o ddiddordeb gan Mr Dilwyn Benjamin. **PENDERFYNWYD** yn unfrydol i dderbyn y cais o £1,020.

**7.8** **PENDERFYNWYD yn ystod y cyfarfod blaenorol** i ofyn i Gyngor Sir Ceredigion tybed a fyddai'n bosibl i osod palmant ger y Lloches Bws ar Sgwâr Ffair Rhos gan y defnyddir y lloches bws gan yr ieuenctid; y mae'r sefyllfa bresennol yn berygl. *Yn yr ateb a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir,* dywedwyd bod darganfod tir addas yn fater o bwys. Pe gallai'r Cyngor Cymuned ganfod tebygolrwydd o gaffael tir, gallai Cyngor Sir Ceredigion ystyried y cais ymhellach. Mae'r briffordd yn gul yn y man dan sylw ac ni ellir ei gyfyngu ymhellach drwy osod llwybr troed o fewn y terfynau'r briffordd sy'n bodoli. **PENDERFYNWYD** cysylltu â thrigolion Penrhiw, Ffair Rhos, i geisio caniatâd.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Un Llais Cymru: Pwyllgor Ardal Ceredigion:** i'w gynnal am 7pm ar Nos Fercher 26ain Ebrill 2017 yn Ystafell Teifi, Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron.

**8.2** **Llywodraeth Cymru: Canllaw'r Cynghorydd Da:** Ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref.

**8.3** **Cod Ymddygiad yr Aelodau** – Hyfforddiant – Canllawiau'r Ombwdsmon.

**8.4** **Cronfa Werdd Cyngor Sir Ceredigion:** i drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

**8.5** **Mr Merfyn Botwood:** yn gofyn am gopi o'r agenda a chofnodion y cyfarfod cyn y cyfarfod. **PENDERFYNWYD** anfon copïau iddo yn electronig. Teimlai ei bod yn holl bwysig bod gwybodaeth am y gymuned yn cael ei gyfleu mewn ffordd glir a thryloyw cyn gynted ag y bo modd ac i bwy bynnag sy'n gofyn.
Cyfeiriodd at gyfarfod mis Chwefror a gofynnwyd pa dystiolaeth oedd ar gael i fod yn sicr pa ddosbarth o gyffuriau oedd yr unigolyn o dan ei ddylanwad, pan yn gyrru.

**8.6** **Clwb Pêl-droed Bont**: yn gofyn am enw'r person a oedd wedi gwneud cais i docio canghennau coed oedd yn tyfu dros y rheiliau Parc Pantyfedwen. **PENDERFYNWYD** cyfleu nad oedd llythyr wedi ei dderbyn ond roedd y mater wedi ei godi yn ystod cyfarfod mis Tachwedd 2016. Yn bresennol: Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Angharad Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Wil Lewis; Y Cyngh. Ifan Lloyd Davies; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price Jones. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo, gan fod y rheiliau yn newydd, byddai'n arfer da i docio'r canghennau coed ac i ofyn yn garedig i'r Clwb Pêl-droed Bont a oedd hyn yn ymarferol.

**8.7** **Gohebiaeth Eraill:** Er gwybodaeth yn unig.

## 9. CYLLID

**9.1** **Rhif y Siec:101474: £70:** Mrs Enid Hughes am ymgymryd â'r Archwiliad Ariannol Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen.

**PENDERFYNWYD** cysylltu â'r Pwyllgor Neuadd i ofyn y rheswm pam fod y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y gost.

**9.2** **Rhif y Siec:101475:** Cyflog y Clerc Ebrill 2017 £155.07

**9.3** **Rhif y Siec: 101476:** Tollau Ei Mawrhydi Ebrill 2017 £38.76

**9.4** **Asesiad Risg Ariannol 2016-17 -** Drafft.
Ystyrir ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1** **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1** **Dywedwyd bod y ffordd ger Mynachlog**, Pontrhydfendigiad yn aml wedi ei orchuddio â
thail ceffyl a phridd sy'n cael eu cludo o un lle i'r llall.

**11.2** **Goleuadau ger Maesnewydd, heb fod yn gweithio –**
i adrodd at sylw CSC.

**11.3** **Mae'r Banc Botel yn y Pentref yn llawn ac angen ei wacau. –**
i gysylltu â'r Cwmni, sy'n gyfrifol.
Mae angen hefyd gwaredu â'r bag o sment, sydd wedi ei adael ger y Banc Botel.

**11.4** **Glaswellt -angen torri yn ardal Maesydderwen –**
i hysbysu *Tai Ceredigion.*

**11.5** **Lefelau sŵn yn aml yn uchel rhwng 2-3am** yng nghyffiniau Maesydderwen pan fydd cŵn yn cael eu gadael allan o un eiddo.

**11.6** **Mae wal yn chwyddo ger Teifiside –**
i hysbysu'r Adran Briffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion.

**11.7** **Codi Sbwriel; i drefnu o fewn y dyfodol agos.** Mae angen glanhau cysgofan bws Ffair Rhos.

**11.8** **Cinio Blynyddol – Ystyriwyd Teifi Inn, Ffair Rhos.**
**PENDERFYNWYD -** y Cyngh John Jones i ddod o hyd i'r Ddewislen erbyn y cyfarfod nesaf.

**11.9** **PENDERFYNWYD cysylltu â** Chyngor Sir Ceredigion
i ofyn tybed a ellid lleoli Croesfan
Pelican tu allan i'r Ysgol.

**Daeth y Cyfarfod i ben am 9.05pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF;**
**Nos Iau 18fed o Fai 2017 2017 i ddilyn y**
**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.**

**==================================(i arwyddo/dyddiad)**